| | Targed/target | Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn<br>What I have done in this assignment... |
|---|---|---|
| Targed/Target 1 | Mabwysiadu dull ysgrifenedig feirniadol wedi'i chefnogi a thystiolaeth. | Ceisio defnyddio dull ysgrifenedig fwy ferniadol ac ychwanegu fwy o tystiolaeth |
| Targed/Target 2 | Datblygu dy wybodaeth o safbwyntiau gwahanol i rymuso'r gwaith. | Ceisio defnyddio fwy o safbwyntiau |
| Targed/Target 3 | Cyfeirnodi'n gywir gan ddilyn dull Harvard. | Ail edrych ar canllawiau Harvard |

# Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu.

Bydd yr adroddiad yma yn canolbwyntio ar sut mae un ysgol yn gweithredu un agwedd o’r cynllun datblygu ysgol. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae’r ysgol yn gweithredu’r cynllun datblygu ysgol, effaith y gweithredoedd a’r sylfaen dystiolaeth tu ôl y gweithredoedd yma. Bydd yr adroddiad yma yn edrych ar yr elfen lles o’r cynllun datblygu ysgol yn bennaf sut mae’r ysgol yn hyfforddi staff ar les disgyblion a strategaethau ar gyfer cynnal ymddygiad (2019-2020). Byddaf yn trafod sylfaen y maes datblygu yma a sut mae’r ysgol yn sicrhau llwyddiant y gweithredoedd er lles y disgyblion.

Mae’r ysgol byddaf yn trafod yn yr adroddiad yma yn ysgol 3 i 19. Mae bron pob disgybl yn perthyn i’r grŵp ethnig gwyn ac mae 90% o’r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae tua 8% o’r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 9% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o’r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r ysgol hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill fel ysgol arloesi i fwrw ymlaen â datblygiadau yn gysylltiedig â’r cwricwlwm. Mae sicrhau lles disgyblion o fewn ysgolion yn elfen bwysig o gyfrifoldeb y llywodraeth, y cynghorau ac ysgolion. Yn 2014 crëwyd y cynlluniau datblygu ysgolion er mwyn egluro sut yn union i greu a chynnal cynllun datblygu ysgol lwyddiannus. Pwrpas y cynllun yw datblygu strategaethau ar gyfer gwelliant, dywed yn y polisi;

> *Mae'n nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Bydd cynllun datblygu ysgol yn cael ei lywio gan yr hunanwerthuso a wna ysgol o'i pherfformiad ei hun ynghyd â data cyd-destunol, a bydd yn cynnwys blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ogystal â thargedau tymor byr a thymor hwy. (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.5)*

Mae creu cynllun datblygu yn sicrhau bod gan yr ysgol cynllun clir ar gyfer sicrhau gwelliant o fewn yr ysgol. Fel dywed yn y dyfyniad uchod mae'r ysgol yn hunanwerthuso gweithredoedd a meysydd dysgu'r ysgol er mwyn asesu'r perfformiad a dynodi lle mae angen sicrhau gwelliant o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio data yn cynnwys data cyrhaeddiad, presenoldeb a chanlyniadau arholiadau ynghyd ag awgrymiadau o arolygiadau Estyn i ddynodi'r meysydd gwelliant.

Mae'r polisi yn dynodi 4 cam i greu'r cynllun er mwyn cefnogi'r datblygiad o'r cynllun. Cam 1 yw hunanwerthuso, dyma le mae'r ysgol yn adfyfyrio ar ei pherfformiad a dynodi meysydd gwelliant. Dywed yn y polisi;

> *Mae'r broses o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ganolog i gefnogi datblygiadau mewn gwella ysgolion, dysgu proffesiynol a deilliannau dysgwyr. Fel proses flynyddol, mae hunanwerthuso yn adnodd allweddol i gynorthwyo ysgol i asesu ei pherfformiad. (Llywodraeth Cymru, 2014, tud. 8)*

Bydd yr ysgol yn asesu ei chynnydd yn ystod y flwyddyn wrth ddilyn ei chalendr monitro er mwyn iddynt hunanwerthuso meysydd cynnydd a meysydd gwelliant. Cam 2 o'r cynllun yw'r cynllunio strategol, dyma le mae'r ysgol yn cydweithio gyda holl bartneriaid yr ysgol er mwyn datblygu cynllun sydd yn gyraeddadwy ac yn sicrhau lles y disgyblion. Cam 3 o'r cynllun yw gweithredu'r cynllun. Dyma le mae'r ysgol yn gweithredu'r cynllun o fewn yr ysgol. Mae'r rhan yma yn holl bwysig i lwyddiant y cynllun, rhaid i staff yr ysgol bod yn ymwybodol o'r cynllun a sut mae modd iddyn nhw sicrhau fod y strategaethau yn cael ei gweithredu. Dywed yn y polisi rhaid i'r cynllun fod yn glir er mwyn sicrhau fod y cynllun yn cael ei gweithredu'n effeithiol;

> *Mae'n bwysig bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys manylion clir am gyfrifoldebau, atebolrwydd, camau gweithredu ac amserlenni er mwyn osgoi dryswch a dyblygu, ac er mwyn sicrhau'r bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.16)*

Cam olaf y cynllun yw adolygu effaith y strategaethau a gweithredoedd, mae'r cynllun yn cael ei ystyried fel dogfen byw sy'n golygu dylai cael ei monitro'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Gweler yn gynllun penodol yr ysgol ei fod wedi penodi amseroedd i werthuso'r

meysydd gweithredu. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu gan y corff llywodraethu ynghyd a'r ysgol yn flynyddol neu ar ôl adolygiad Estyn er mwyn sicrhau fod y cynllun yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol yn barhaol.

Blaenoriaeth yr adroddiad yma yw edrych ar sut mae'r ysgol yn gweithredu'r elfen lles o'r cynllun datblygu. Cyhoeddwyd y llywodraeth canllaw ar gyfer iechyd a lles o fewn ysgolion yn 2010. Mae'r canllaw yn pwysleisio pwysigrwydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn sydd yn penodi lles fel un o'r meysydd arolygu. Mae'r canllaw yn cwmpasu dau gwestiwn am les o fewn ysgolion, 'Pa mor dda yw'r deilliannau? A 'Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?'. Mae'r canllaw yn egluro beth mae Estyn yn ystyried wrth arolygu'r maes penodol yma, yn cynnwys y deilliannau yma;

> *datblygu agweddau at gadw'n iach ac yn ddiogel;*
> *cyfranogiad disgyblion a'u mwynhad o'r broses ddysgu;*
> *eu cyfranogiad yn y gymuned ac wrth wneud penderfyniadau;*
> *eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau bywyd. (Llywodraeth Cymru, 2010, tud. 5)*

Mae'r agweddau yma yn holl bwysig er mwyn sicrhau llesiant disgyblion o fewn yr ysgol, wrth gynllunio'r cynllun gweithredu dylai'r ysgol sicrhau fod yr elfennau yma yn cael ei chynnwys o fewn y cynllun. Mae hefyd yn egluro ba ddarpariaeth dylai'r ysgol cynllunio;

> *darpariaeth ar gyfer iechyd a lles gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol;*
> *gwasanaethau arbenigol, gwybodaeth ac arweiniad;*
> *trefniadau diogelu;*
> *darpariaeth ar gyfer y sawl ag anghenion dysgu ychwanegol. (Llywodraeth Cymru, 2010, tud. 5)*

Wrth sicrhau ei fod yn dilyn y canllawiau yma ac yn sicrhau darpariaeth lles perthnasol i'r disgyblion mae modd i'r ysgol sicrhau lles y disgyblion o bob oedran.

Mae lles ddisgyblion yn hanfodol wrth iddynt ddatblygu fel unigolion iach a hyderus fel y dywed yn ddyfodol llwyddiannus, canllaw'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae canllaw'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg 2017 yn dweud fod lleihau'r effaith o dlodi ar gyrhaeddiad yng Nghymru yn flaenoriaeth genedlaethol. Er mwyn lleihau'r effaith yma rhaid sicrhau fod ysgolion yn gweithredu strategaethau sydd wedi profi i godi cyrhaeddiad. Mae'r canllaw yn awgrymu strategaethau er enghraifft;

> *Assessment for learning/feedback*
> *Engaging curriculum/Curriculum design*
> *Family and Community Engagement (EAS, 2017, tud. 15)*

Wrth gynllunio ar gyfer y strategaethau o fewn y cynllun datblygu ysgol mae modd gwella lles y disgyblion trwy sicrhau fod pob elfen o'i fywydau ysgol yn fuddiol i lesiant y disgyblion.

Er mwyn creu'r cynllun datblygu ysgol 2019 i 2020 defnyddiodd yr ysgol y cylch llunio a thrafodais yng nghynt. Dechreuwyd gyda gweledigaeth er mwyn penderfynu ar beth ddylent ganolbwyntio, defnyddiwyd data meintiol ac ansoddol i ganfod y maes gwella yma. Yn 2017 cafodd yr ysgol arolygiad Estyn gyda dyfarniad 'da' am y maes Lles ac agweddau at ddysgu. Mae hyn yn golygu fod 'nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau' (Estyn). Fel yr awgrymwyd yn y polisi cynlluniau datblygu ysgolion, rhaid i ysgolion creu cynllun datblygu yn seiliedig ar yr elfennau o'r ysgol sydd â modd wella. Dywedodd Estyn yn ei adroddiad o ran lles ac agweddau at ddysgu;

> *Maent yn gryf eu cymhelliant ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn annibynnol a chyda'u cyfoedion. Mae llawer yn arddangos dygnwch wrth ddyfalbarhau â thasgau cymhleth. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau rhyngbersonol cryf iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. (Estyn, 2017, tud. 6)*

Mae'r adroddiad yn canmol yr ysgol am yr agwedd yma ac nid oedd argymhellion am y maes yma. Er hyn byddai'r ysgol wedi defnyddio'r data yma ynghyd a'r data bandio i weld sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion eraill er mwyn darganfod sut mae modd wella o'r dyfarniad 'da' i 'rhagorol'.

Y cam nesaf o gynllunio'r cynllun yma oedd hunanwerthuso. Defnyddiwyd y wybodaeth o'r adroddiad Estyn ynghyd a thrafodaethau gyda'r staff a'r llywodraethwyr er mwyn gwerthuso pa mor llwyddiannus oedd ei darpariaeth lles. Defnyddiwyd hefyd data ansoddol yn cynnwys data cyrhaeddiad a phresenoldeb er mwyn gwerthuso effaith ei darpariaeth lles ar gyrhaeddiad academig y disgyblion a'i phresenoldeb yn yr ysgol. Er mwyn ymateb i'r wybodaeth yma crëwyd y cynllun datblygu 2019-2020 gyda maes penodol ar gyfer gwella lles o fewn yr ysgol.

Nesaf datblygwyd y cynllun strategol ar gyfer 2019-2020 gyda elfen i ymateb i'r ofynion lles;

> *Hyfforddi staff ar les disgyblion a strategaethau ar gyfer cynnal ymddygiad. (Cynllun datblygu ysgol 2019-2020)*

Penderfynwyd ar y weithred yma o ganlyniad i werthuso a thrafod gyda'r llywodraethwyr am sut mae modd gwella'r elfen yma o'r ysgol. Defnyddwyr yr ysgol canllawiau'r llywodraeth yn cynnwys dyfodol llwyddiannus, cynlluniau datblygu ysgol a chanllawiau iechyd a lles er mwyn penderfynu ar y strategaeth benodol er mwyn ymateb i ofynion y weithred gwella. Defnyddiwyd hefyd data meintiol fel gwybodaeth am bandio ysgolion a chynnydd dysgwyr er mwyn penodi gweithred benodol ar gyfer y maes yma.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y weithred yma mae'r cynllun yn dweud fod gan bob aelod o staff cyfrifoldeb i weithredu'r strategaeth yma. Mae hyn yn golygu fod rhaid i bawb cydweithio er mwyn gwella'r ddarpariaeth yma. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus mae'r

cynllun yn dynodi meini prawf llwyddiant er mwyn gwerthuso effaith y weithred yn ystod y flwyddyn. Mae'r meini prawf yn dweud;

> *Arfaniadau gwersi, adroddiadau hunanarfarnu, cofnodion ASC yn dangos bod strategaethau addas yn cael eu defnyddio i gynnal safonau uchel yn y gwersi. (Cynllun datblygu ysgol, 2019-2020).*

Er mwyn cyflawni meini prawf y weithred yma yn ystod y flwyddyn roedd aelodau staff yn cael ei arsylwi yn ystod gwersi er mwyn asesu ei strategaethau ar gyfer cynnal ymddygiad a sicrhau lles y disgyblion. Wrth gael ei arsylwi gan aelod o'r tîm rheoli yn yr ysgol mae modd darganfod os oes angen fwy o hyfforddiant o ran rheoli ymddygiad yn y dosbarth.
O ganlyniad i werthuso strategaethau rheoli ymddygiad o fewn yr ysgol cynhaliwyd hwyr nos ar Ddatblygu llesiant a gwytnwch; hybu amgylchedd dysgu gadarnhaol. Wrth wneud hyn roedd yr ysgol yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei chyfrifoldeb i hyfforddi staff am sut i wella ymddygiad a deall lles y disgyblion.

Mae'r ysgol hefyd wedi buddsoddi yn yr arfer o hunan arfarnu, wrth asesu'r data o'r hunan arfarniadau ac wrth ddadansoddi'r cofnodion ASC er mwyn sicrhau ei fod yn darparu cefnogaeth fuddiol ar gyfer y disgyblion anghenion arbennig. Wrth wneud hyn mae modd i'r tîm arwain, y staff ynghyd a'r llywodraethwyr gwerthuso sut mae modd gwella lles o fewn yr ysgol trwy wella dealltwriaeth y staff o strategaethau ar gyfer sicrhau lles ac ymddygiad o fewn y dosbarth.

Hefyd fel ysgol arloesol y cwricwlwm newydd i Gymru mae gan yr ysgol cyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cynnig y ddarpariaeth orau i'r disgyblion wrth ddilyn canllawiau'r cwricwlwm newydd. Trwy hyfforddi'r staff am bwysigrwydd lles o fewn y cwricwlwm newydd mae modd iddynt ddeall sut mae lles disgybl yn gallu effeithio ar ei addysg. Mae'r ysgol yn gyson yn cynnal cyfarfodydd er mwyn trafod a deall gofynion y cwricwlwm newydd;

> *Mae angen i ysgolion ofalu am anghenion corfforol ac emosiynol eu plant a'u pobl ifanc a'u helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywyd eu hunain, drwy ddeall pwysigrwydd deiet a ffitrwydd, er enghraifft, a bod yn hyderus wrth reoli eu materion eu hunain. Dylid meithrin annibyniaeth, hunanddibyniaeth a pharch at eraill drwy gydol y broses addysgu a dysgu. (Dyfodol Llwyddiannus, 2015, p.28)*

Mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio pwysigrwydd lles o fewn ysgolion ac mae'r ysgol wedi buddsoddi yn y syniad yma. Mae'r ysgol ynghyd a hyfforddi'r staff am les a'r cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau fod y staff yn deall ei chyfrifoldeb i ofalu am les ei ddisgyblion fel y dywed yn y dyfyniad uchod. Maent hefyd yn dysgu'r disgyblion am bwysigrwydd lles meddyliol, iechyd a'i hawliau. Mae gan yr ysgol sawl arddangosfa ar draws yr ysgol sydd yn sicrhau fod gan y disgyblion mynediad i wybodaeth am lesiant ei hun.

Mae'r ysgol wedi penodi amser gweithredu penodol ar gyfer yr elfen yma o'r cynllun datblygu, Medi i Orffennaf. Hefyd er mwyn ariannu'r maes yma mae'r ysgol wedi penodi cyllid SIG i sicrhau llwyddiant y gweithredoedd yma. Ar ôl y cyfnod yma bydd yr ysgol yn gweithredu'r cam olaf o'r cylch llunio, adolygu effaith. Er mwyn cyflawni'r cam yma yn llwyddiannus fydd yr ysgol yn defnyddio data ansoddol er enghraifft llais y disgybl, er mwyn darganfod sut neu os mae'r ddarpariaeth lles wedi gwella yn yr ysgol. Trwy ddefnyddio data ansoddol mae modd rhoi cyfleoedd i'r disgyblion rhannu eu teimladau am sut maent yn teimlo o fewn yr ysgol ar ôl i'r cynllun datblygu cael ei gweithredu. Mae gwneud hyn hefyd yn sicrhau fod yr ysgol yn ymateb i Hawliau'r Plentyn sydd yn dweud fod gan blant a phobl ifainc yr hawl i;

> *Cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol. (Cynulliad Cymru, 2006, tud 8)*

Mae gwrando ar ddysgwyr yn elfen bwysig o'r cwricwlwm newydd ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw hefyd gweithredu fel dinasyddion o fewn yr ysgol.

Bydd yr ysgol hefyd yn defnyddio data ansoddol a meintiol yn cynnwys presenoldeb, cyrhaeddiad a sut maent yn cymharu gydag ysgolion eraill er mwyn dadansoddi sut mae'r data yma wedi newid ers iddynt weithredu'r elfen yma o'r cynllun datblygu.

Mae'r ysgol wedi gwneud dechrau da wrth weithredu'r cynllun datblygu 2019 i 2020, er mwyn gwneud fwy o gynnydd yn y maes yma byddai cynnig fwy o hyfforddiant am les i'r staff ysgol yn sicrhau ei fod yn deall holl elfennau lles nid yn unig sut mae'n effeithio ar addysgeg ddisgyblion. Byddai fwy o ddarpariaeth ynglŷn ag iechyd meddwl o fewn yr ysgol gynradd ac uwchradd yn sicrhau fod gan ddisgyblion cyfleoedd i ddeall a gwella ei lles ei hun o fewn yr ysgol.

Byddai parhau i ddysgu am a gweithredu yn ôl canllawiau dyfodol llwyddiannus hefyd yn fuddiol i'r staff a'r disgyblion gan fod deall anghenion pob dysgwr a hybu lles emosiynol a meddyliol yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru. Dywed yn y canllawiau;

> *Bydd dulliau sy'n hybu lles cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr yn cynnig cyfleoedd i feithrin deallusrwydd emosiynol a metawybyddiaeth. O ganlyniad, bydd dysgwyr yn gallu myfyrio ar eu dysgu eu hunain a deall y byddant yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y dysgu gan bobl eraill. (Dyfodol Llwyddiannus, 2015, tud.70)*

Byddai sefydlu dulliau sy'n hybu meddylfryd twf a deall emosiynau yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr deall a myfyrio ar ddysgu ei hun a gallu gweithredu fel unigolion iach a hyderus o fewn y gymuned a'r byd.

I gloi, mae'r ysgol wedi gwneud sawl ymgais i sicrhau lles ei ddisgyblion, mae'r hyfforddiant o les i'r staff ysgol yn fy marn i wedi cael effaith boddhaol ar les y disgyblion,

wrth siarad efo'r disgyblion mae'n amlwg fod ei ymwybyddiaeth o les ei hun ac eraill wedi gwella. Mae'r strategaethau ar gyfer cynnal ymddygiad hefyd wedi bod yn fuddiol gan fod yr athrawon wedi rhannu'r arferion yma gyda'r darpar athrawon o fewn yr ysgol.

Wrth drafod ac ymchwilio i mewn i sut mae cynllun datblygu ysgol yn cael ei chreu, cynnal a gwerthuso rydw i'n teimlo fy mod i'n deall y disgwyliadau sydd gan y llywodraeth o ysgolion ond hefyd y disgwyliadau ar athrawon i gefnogi a sicrhau llwyddiant y cynllun datblygu ysgol. O ganlyniad i'r adroddiad yma byddaf yn sicrhau fy mod i'n darllen a deall cynlluniau ysgolion yn y dyfodol er mwyn sicrhau fy mod i'n gweithredu yn ôl y cynllun ac yn gweithredu i sicrhau ei llwyddiant.

## Rhestr Gyfeirio

Cynllun datblygu ysgol (2019-2020)

EAS. (2017). *EAS Closing the Gap in Education* [pdf] (p. 15). Retrieved from http://www.childreninwales.org.uk

Estyn. (2017). *Adroddiad Estyn Ysgol* [redacted] [pdf]. Retrieved from https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20 [redacted] pdf

Llyw Cymru. (2010). *Meddwl yn gadarnhaol Iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar* [pdf] (p. 5). Retrieved from

Llyw Cymru. (2014). *Cynlluniau datblygu Ysgolion* [pdf] (pp. 5 - 16). Retrieved from https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf

Llyw Cymru. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus* [pdf] (pp. 28 - 70). Retrieved from https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

Llywodraeth Cymru. (2006). *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant* [pdf] (p. 8). Retrieved from http://www.sir-benfro.gov.uk › objview